

Mae'r trefniant dros dro hwn o fudd i'r ddau fudiad. Mae'r cysylltiad teuluol yn golygu bod Andrew yn gyfarwydd iawn â gwaith Trobwynt, a bydd Trobwynt felly yn cael help rhywun nad yw'n ddieithr iddo o gwbl gyda'r gwaith yn ystod cyfnod mabwysiadu Rachel. Bydd Cynllun Efe yn naturiol yn derbyn tâl gan Trobwynt am gael gwasanaeth Andrew, a bydd hynny'n help mawr i ni wrth i ni barhau â'n hymdrech i godi'r cyllid sydd ei angen i gynnal y swydd a'r gwaith.

Yn amlwg, bydd rhaid i ni sicrhau ein bod deg ag Andrew wrth iddo geisio cyflawni'r gwaith yn y ddwy ardal. Bydd angen gofalu nad ydym fel dau fudiad yn gofyn gormod ganddo dros y misoedd nesaf gan fod peryg i hynny ddigwydd bob tro y mae rhywun yn ceisio cyflawni dwy swydd, neu hanner dwy swydd.

Nid ydym yn gwybod am ba hyd y bydd y trefniant yn para gan ei fod yn dibynnu ar hyd cyfnod absenoldeb mabwysiadu Rachel. Fe all fod hyd at flwyddyn, ond fe all fod yn llai na hynny. Pob bendith i Andrew yn y gwaith.

Y mis nesaf - Deiniolen

Mai 18

10.00 a.m. - Oedfa Deulu
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Mai 25

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg W R Williams

Mehefin 1

9.30 a.m. - Y Gweinidog
10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Nos Fercher, Mai 21: Dosbarth Beib-laidd yr Ofalaeth yn Yr Haciau, Penisar-waun am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Mai 25: Cynhelir yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch ac oedfa am 5.00 o'r gloch dan arweiniad y Parchg W R Williams, Y Felinheli.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Nos Fercher, Mai 21: Dosbarth Beib-laidd yr Ofalaeth yn Yr Haciau, Penisar-waun am 7.00 o'r gloch.

Nos Wener, Mai 23: CIC yn y festri am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Mai 25: Oedfa Deulu am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

REHOBOTH

Dydd Sul, Mai 25: Ni fydd oedfa.

Y mis nesaf - Llanberis

Mai 18

10.00 a.m. - Mrs Nerys Griffith
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa

Mai 25

10.30 a.m. - Oedfa Deulu
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Mehefin 1

10.00 a.m. - Mr Euron Hughes
10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Geraint Roberts



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris
Rhif 592- Dydd Sul, 18 Mai, 2014

Safonau

Mi welais i rywbeth anarferol iawn y noson o'r blaen. A deud y gwir, wn i ddim a welais i'r fath beth erioed o'r blaen. Roedd o'n dipyn o sioc a deud y gwir. Ac yn siom go fawr, am ei fod yn dangos bod safonau'n syrthio. Doedd pethau fel hyn ddim yn digwydd dan oruchwyliaeth Louis a Choppers!

Gwneud paned o de oeddwn i, ond wedi tywallt y dŵr berwedig dros y bag te a rhoi amser iddo fwrw ei ffrwyth, fe synnais o weld nad oedd y dŵr wedi newid ei liw. Doedd ryfedd hynny chwaith o sylweddoli bod y bag te'n hollol wag! Ac roedd y ddau fag te nesaf i mi eu tynnu o'r bocs yr un mor amddifad o de. O leiaf dri bag gwag mewn un bocs bach o de! I ba beth mae'r byd yn dod? Na, doedd pethau fel hyn yn digwydd pan oedd Louis a Choppers a'r tsimpansiaid eraill yn rhedeg y sioe.

Bu farw Louis fis Gorffennaf diwethaf. Fo oedd un o'r tsimpansiaid a welwyd yn hysbysebion y cwmni te am flynyddoedd, yn cynnwys yr un efo'r ddau tsimpansi yn symud piano. Erbyn hyn, Choppers yw'r unig un ohonyn nhw sy'n dal yn fyw. Ond nid dyna pam nad ydyw i'w weld o hyd ar y sgrin. Mae'r cwmni wedi rhoi gorau i ddefnyddio tsimpansiaid am fod pethau wedi newid. Am flynyddoedd, roedd yn gwbl dderbyniol gan y rhelyw o bobl fod tsimpansiaid yn cael eu hyfforddi i actio ar gyfer yr hysbysebion hyn, ac fe'u gwisgwyd mewn dillad a'u gosod mewn sefyllfaoedd 'dynol'. Ond daeth

tro ar fyd, ac mae peth felly erbyn hyn yn gwbl annerbyniol, yn union fel mae'n annerbyniol bellach gael anifeiliaid mewn syrcau. Mae Choppers yn 42 mlwydd oed; ac er ei fod yn hen mae'n debyg mai dim ond dechrau ymddwyn fel tsimpansi - a dechrau byw gyda tsimpansiaid eraill - y mae. Hwyl oedd yr hysbysebion yng ngolwg y rhelyw o bobl ar y pryd, ond erbyn hyn mae'r un bobl yn gwaredu wrth feddwl am y ffordd y cafodd yr anifeiliaid hyn eu trin.

Un enghraifft yw hyn o'r ffordd y mae safonau a'r hyn sy'n dderbyniol yng ngolwg pobl yn medru newid dro gyfnod. Nid yw'r ffaith bod pobl wedi derbyn rhai pethau am flynyddoedd yn golygu bod y pethau hynny'n iawn yn y lle cyntaf. Ond mae pethau'n gymhleth pan fo rhywbeth sy'n hwyl a diniwed mewn cyfnod yn dod yn gwbl anghywir mewn cyfnod arall.

Mae'n bosibl y bydd rhai o'r pethau a wnawn ni ac a dderbyniwn ni heddiw yn cael eu hystyried yn annerbyniol ymhen blynyddoedd. A dyna pam ei bod yn bwysicach nag erioed mae'n debyg i ni geisio dod o hyd i'r safonau arhosol a pharhaol sydd yn y Beibl ar gyfer ein bywydau ni. Oherwydd mae yng Ngair Duw ddysgeidiaeth sy'n aros ac egwyddorion sy'n para. Mae'r rhain yn arweiniad diogel ar gyfer ein bywydau mewn byd a betws, yn y byd ac o fewn yr Eglwys. Boed i Dduw ein helpu i weld y gwirioneddau hynny ac i seilio ein bywydau arnynt er ei glod.

Gofalaeth Unedig
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon Sul arall. Boed i Dduw fendithio ein haddoliad.

Gwasanaethir yn Llanberis am 10.00 o'r gloch gan Mr Nerys Griffiths. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Cynhelir oedfa yng ngofal y swyddogion am 5.00 o'r gloch.

Bydd y ddwy oedfa yn Neiniolen yng ngofal y Gweinidog. Cynhelir Oedfa Deulu am 10.00 o'r gloch ac oedfa arall am 5.00 o'r gloch.

Nid oes oedfa yn Rehoboth heddiw.

Cofion

Anfonwn ein cofion at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.

Dymunwn yn dda hefyd i bawb arall sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd, yn arbennig yr aelodau ffyddlon sy'n methu â dod i'r oedfaon y dyddiau hyn. Gwelwn eisiau'r ffyddloniaid sy'n methu dod atom o Sul i Sul.

Cymanfa

Cynhaliwyd Cymanfa Annibynwyr y cylch yn Ysgol Gymuned Penisarwaun, bnawn Sul diwethaf, Mai 11.

Roedd y gwasanaeth dechreuol yng ngofal plant Ysgol Sul Deiniolen, a diolch yn fawr iawn iddynt hwy ac athrawon yr Ysgol Sul am yr holl waith paratoi ar gyfer y gwasanaeth. Cafwyd dechrau arbennig o dda i'r cyfarfod ganddyn nhw ar thema 'Cariad'.

Mrs Susan Williams, Ceunant, Llanrug oedd yn arwain y canu a'r addoli, ac unwaith eto cawsom fendith wrth gydaddoli yn ei chwmmi.

Cafwyd neges gan Andrew Settatee, a gyflwynodd ei neges trwy ddram fechan yn cyflwyno hanes Iesu Grist yn iachau gwas y canwriad Rhufeinig. Diolch i Iolo Roberts am gymryd rhan yn y ddrama fach gydag Andrew a minnau.

Roedd athrawon a rhieni'r Ysgol Sul yn Neiniolen wedi paratoi te i bawb ar derfyn yr oedfa, ac roedd digonedd o gacennau i bawb. Diolch yn fawr iawn am fynd i'r fath drafferth a chafwyd sgwrs braf wrth y bwrdd te.

Cymorth Cristnogol Mai 11-17

Gwnaed casgliad Wythnos Cymorth Cristnogol yn Neiniolen, Llanberis a Nant Peris yn ystod yr wythnos.

Diolch yn fawr iawn i bawb a fu'n helpu i gasglu ac a gyfrannodd arian yn yr amlenni coch eleni eto.

Gan na lwyddwyd i gasglu ym mhob stryd yn Llanberis, os oes unrhyw un yn awyddus i gyfrannu ond heb gael cyfle i wneud hynny, a wnewch chi gysylltu â'r Gweinidog yn ystod yr wythnos

nesaf yma os gwelwch yn dda. Ffoniwch 872390 os ydych eisiau amlen, ac mi drefnaf i chi gael amlen er mwyn i chi allu cyfrannu erbyn diwedd yr wythnos nesaf.

Nid oes hawl i fynd â'r amlenni o ddrws i ddrws ar wahân i'r wythnos swyddogol, ond mater arall ydi dod ag amlen i chi os ydych yn gofyn am un, wrth gwr.

Felly, os na chawsoch amlen trwy'r drws, a'ch bod eisiau cyfrannu at y casgliad blynyddol hwn, cysylltwch â mi yr wythnos hon.

Cwrs Plant yn y Bala

Aeth saith o blant Ysgol Sul Capel Coch i'r Cwrs Plant yng Ngholeg y Bala dros y Sul hwn. Diolch yn fawr iawn i'r rhieni a fu'n eu danfon nos Wener ac a fydd yn eu nôl adref ar ôl cinio heddiw.

Mae llai na arfer ar y cwrs eleni, 7 o Lanberis ac 8 o Lanrug, a dyna pam na threfnwyd bws y tro hwn ond gofyn i'r rhieni ddanfon y plant i'r Bala.

Diolch yn fawr iawn i Andrew Settatee am fynd i'r Bala i helpu i ofalu am y criw.

Mae'r cwrs wedi bod yng ngofal Mrs Nia Williams, Pwllheli a gweithwyr y Coleg.

Dosbarth Beiblaidd

Cynhelir Dosbarth Beiblaidd yr Ofalaeth yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch nos Fercher, Mai 21.

CIC

Cynhelir CIC yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch nos Wener, Mai 23.

Efe a Trobwynt

Os cofiwch pan oeddech yn sefydlu Cynllun Efe, flynyddoedd yn ôl erbyn hyn, buom yn sôn am waith tebyg oedd yn cael ei wneud yn Llŷn ac Eifionydd dan nawdd mudiad o'r enw 'Trobwynt'. Mewn gwirionedd, fe gawsom gyngor a help gan y mudiad hwnnw wrth roi trefn ar bethau efo gwaith Efe, ac roedd Trobwynt yn batrwm i Efe o'r cychwyn.

Mae'r cysylltiad wedi para ers hynny, ac mae'r ddau fudiad wedi cydweithio llawer gan drefnu rhai gweithgareddau ar y cyd. Un peth amlwg sydd wedi hwyluso'r cydweithio yw'r ffaith bod gweithwyr y ddau fudiad yn perthyn i'w gilydd gan fod Rachel Settatee, sy'n gweithio i Trobwynt, yn chwaer yng nghyfraith i Andrew. Roedd ei gŵr, John, sef brawd Andrew, yn arfer gweithio i Trobwynt hefyd ond mae ef erbyn hyn yn gweithio i Undeb y Gair (Scripture Union).

Mae'r cydweithio yn mynd yn i fod yn fwy fyth dros y misoedd nesaf gan ein bod fel Ymddiriedolwyr Efe wedi dod i gytundeb ag Ymddiriedolwyr Trobwynt i 'fenthg' Andrew i Trobwynt am ran o'r wythnos. Mae Rachel a John yn mabwysiadu plentyn, ac mae Rachel yn cael amser o'i gwaith am rai misoedd. Dros y cyfnod absenoldeb mabwysiadu hwn bydd Andrew yn treulio hanner yr wythnos gyda Trobwynt yn gwneud rhan o waith Rachel, a'r hanner arall yma gyda ni yng Nghynllun Efe. Fel arfer, felly, bydd yn Llyn ac Eifionydd o fore Mawrth hyd bnawn lau ac yma gyda ni weddiill yr amser.

Dymunwn bob bendith iddo yn ei waith gyda Trobwynt, gan obeithio y bydd yn mwynhau'r gwaith ac yn cael budd o gydweithio gyda phobl wahanol i'r arfer. Ac edrychwn ninnau ymlaen at barhau i gydweithio ag ef yng ngwaith Efe.